Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd

Cynradd Is

Gweithgaredd 10:
Gallwn ei werthu

Amcan dysgu

Datblygu sgiliau mewn gwerthu eu cynnyrch neu wasanaeth.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Agwedd

- Hunanhyder
- Penderfyniad

Cysylltiadau

- Cyfathrebu
- Gweithio gydag eraill
- Trafod, darbwyllo a dylanwadu

Gweithgareddau dysgu

Mae'r disgyblion yn cynllunio'r trefniadau ymarferol ar gyfer eu prosiect menter ac yn cytuno ar, ac yn dyrannu tasgau. Cyn gwerthu eu cynnyrch bydd angen i'r disgyblion:

- Gyfrifo faint a wariwyd ar wneud y cynnyrch
- Cyfrifo cost gwirioneddol pob eitem.
- Cyfrifo'r lleiafswm sydd angen ei godi er mwyn cadw o fewn cyllid
- Penderfynu ar bris rhesymol fydd yn rhoi elw iddynt
- Paratoi rhestr brisiau clir i arddangos i'w cwsmeriaid.

Mae'r disgyblion yn gwerthu eu cynnyrch neu'n cynnal eu gwasanaeth.

Mae'r disgyblion yn cadw cofnod o'r gwerthiant, yr arian a dderbynnir a'r elw a wneir.

Mae'r disgyblion yn gwneud cofnod ffotograffig o'u prosiect menter.

Gweithgaredd 10:
Gallwn ei werthu

Cynradd Is

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn gallu cyflawni tasg syml mewn cydweithrediad ag eraill a gwneud cyfraniadau positif.

Adnoddau sydd eu hangen

- Cynnyrch
- Arian parod ar gyfer newid
- Til/ cofrestr arian syml
- Camera digidol

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

1. Sgiliau Trawsgwricwlaidd

Llythrennedd

Siarad

- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Gwrando

- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando fel rhan o ymddiddan cydweithredol

Rhifedd

- Llythrennedd Rhifedd

Cymhwysedd Digidol

- Darganfod, chwilio a chynllunio cynnwys digidol
- Creu cynnwys digidol
- Gwerthuso a gwella cynnwys digidol